

Sipsiwn a Theithwyr

Y Chwedlau/Y Ffeithiau



Nod y pamffled disodli chwedlau hwn yw chwalo unrhyw chwedlau cyffredin ynghylch bywydau Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n ceisio gwella dealltwriaeth y rheiny sy'n gweithio ac yn darparu gwasanaethau i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr am eu traddodiadau a'u diwylliant cyfoethog.

Mae sawl gwahanol grŵp o Sipsiwn a Theithwyr yn byw yn y DU, gan gynnwys Sipsiwn Romani, a Theithwyr Gwyddelig, Cymreig, Saesneg ac Albanaidd. Mae hefyd grwpiau eraill megis Teithwyr Newydd, a theuluoedd Syrcas a Dynion Sioe. Mae o leiaf 500 mlynedd ers i Sipsiwn Romani gyrraedd Prydain, a 200 mlynedd ers i'r teithwyr Gwyddelig gyrraedd am y tro cyntaf.

Mae rhai gwerthoedd diwylliannol a thraddodiadau yn debyg, gan gynnwys hanes nomadiaeth neu fyw ar safleoedd fel grwpiau teuluol. Yn wahanol i gymunedau sefydlog, maent yn profi mwy o wahaniaethu a rhagfarn yn eu bywydau pob dydd, ac maent yn cael trafferthion mawr yn cynnal eu ffordd o fyw a'u treftadaeth. Maent yn aml dan anfantis wrth geisio cael mynediad i ofal iechyd, addysg, a llety diogel. Mae disgwyliad oes gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae gan bob corff cyhoeddus ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb i Sipsiwn a Theithwyr. O dan y ddeddf hon, mae gan Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig y nodwedd warchoddedig 'hil'. Fodd bynnag, nid ystyrir Teithwyr Newydd na theuluoedd Syrcas/Dynion Sioe fel Lleiafrifoedd Ethnig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Chwedl 1: 'Mae gan Sipsiwn a Theithwyr ffordd hawdd o fyw'

Y gwir: Yn groes i'r canfyddiad a'r gred boblogaidd bod Sipsiwn a Theithwyr yn byw bywydau rhamantaidd a diofal o'u dewis, y gwir yw eu bod yn fwy tebygol o fod yn sâl na grwpiau eraill, yn ddau i bum gwaith yn fwy tebygol o gael problemau iechyd, ac mae ganddynt ddisgwyliad oes 10-12 mlynedd yn llai na'r boblogaeth sefydlog. Mae'r lefelau marwolaeth cyn geni, genedigaethau marw a marwolaeth plant hefyd yn uwch¹. Mae diffyg dealltwriaeth o'u diwylliant a'u hanghenion yn ogystal â llety anniogel yn gallu ei gwneud hi'n anodd i Sipsiwn a Theithwyr gael mynediad i ofal iechyd a'i dderbyn².

Am ragor o wybodaeth ewch i www.wales.gov.uk/gypsytravellers

Chwedl 2: 'Nid yw Sipsiwn a Theithwyr am weithio'

Y gwir: Nid yw Sipsiwn a Theithwyr yn swil o ran gwaith ac maent yn aml yn dechrau gweithio'n iau, gyda sgiliau traddodiadol yn cael eu trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Mae ethig gwaith cryf, yn seiliedig ar yr angen i fyw. Maent wedi bod yn rhan o'r Gymdeithas Ewropeaidd am ganrifoedd, gan wneud amrywiaeth o alwedigaethau gan gynnwys gwaith metel, masnachu ar raddfa fach a gwaith amaethyddol tymhorol. Nid yw nifer o Sipsiwn a Theithwyr mewn cyflogaeth yn datgelu eu hethnigrwydd rhag ofn y bydd pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

Chwedl 3: 'Nid yw Sipsiwn a Theithwyr yn talu treth'

Y gwir: Nid yw bod yn Sipsiwn a Theithwyr yn golygu eich bod yn fwy tebygol o osgoi talu trethu nag unrhyw un arall. Mae Sipsiwn a Theithwyr yn talu treth ffordd, TAW ar nwyddau a gwasanaethau a threth incwm pan fyddant yn gweithio neu'n hunangyflogedig. Maent yn talu treth y cyngor, rhent, ffioedd trwyddedau a chostau cyfleustodau eraill ar safleoedd sefydlog. Mae safleoedd cyhoeddus yn cael eu hariannu trwy rent sy'n cael ei gasglu gan breswylwyr, ac mewn rhai achosion, mae'r rhent sy'n cael ei dalu yn fwy na'r hyn sy'n cael ei dalu ar gyfer tai awdurdod lleol. Nid yw nifer o Sipsiwn a Theithwyr heb gyfeiriad sefydlog yn gallu agor cyfrif banc na'n gallu cofrestru'n hunangyflogedig.

Chwedl 4: 'Mae safle Teithiwr yn dinistrio'r ardal amgylchynol does dim ots ganddynt am y gymdeithas'

Y gwir: Lle mae safleoedd sefydlog swyddogol wedi'u darparu, mae perthnasedd cymunedol cadarnhaol yn datblygu e.e. bu ychydig iawn o gwynion am safle Tŷ Gwyn Abertawe ers iddo gael ei adeiladu. Mae nifer o Sipsiwn a Theithwyr am gysylltu â'r gymuned ehangach ac am hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth. Gall rhai fod yn fwy amharod i gysylltu o ganlyniad i wahaniaethu, profiadau negyddol neu'r ofn y bydd gwasanaethau'n ceisio cymathu Sipsiwn a Theithwyr heb ystyried colli diwylliant. Roedd astudiaeth fanwl yng Nghymru yn dangos bod natur gyfnewidiol yn y galw am safleoedd, gyda rhai yn orlawn, mae angen atgyweiriadau sylweddol ar rai, mae diffyg ardaloedd chwarae ar y rhan fwyaf o safleoedd, a phwysigrwydd ymgynghori â phreswylwyr dros gynlluniau gwella³.

Chwedl 5: 'Mae Sipsiwn a Theithwyr yn frwnt'

Y gwir: Mae gan Sipsiwn a Theithwyr falchder mawr mewn glendid, ac mae ganddynt reolau llym ac arferion hylendid personol a glendid, sydd hefyd yn gweithredu fel egwyddorion byw. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau o drafod llestri, cytleri a bwyd i olchi dillad. Mae chwarter yr holl Sipsiwn a Theithwyr yn ddigartref, gan nad oes ganddynt safle cyfreithiol na pharhaol, ac felly nid yw'r rhan fwyaf yn derbyn casgliadau sbwriel na chyfleusterau eraill. Darganfu fod darparu safleoedd go iawn yn rhatach ac yn fwy cynaliadwy na gweithrediadau gorfodi a glanhau.

¹The Health Status of Gypsies and Travellers in England: A report to the Department of Health (University of Sheffield - 2004).

²At What Cost? The Economics of Gypsy and Traveller Encampments (L Clements and R Morris, Policy Press 2002).

³Niner, P. (2006) Accommodation needs of Gypsy-Travellers in Wales. Report to the Welsh Assembly Government. Birmingham: Centre for Urban and Regional Studies.